Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 25.04.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cronfa ddata plant sy'n colli addysg** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, mae Estyn yn ystyried bod creu gofyniad ar bob awdurdod lleol i sefydlu cronfa ddata o ddim ond y plant hynny yn eu hardal sydd efallai'n colli addysg ac/neu efallai ddim yn derbyn addysg addas yn ddatblygiad cadarnhaol. Ar hyn o bryd, mae'n anodd i awdurdodau lleol nodi'r holl blant a phobl ifanc y mae ganddynt ddyletswydd amdanynt i sicrhau eu bod yn derbyn lefel addas o addysg. Efallai nad ydynt yn ymwybodol o ddisgyblion nad ydynt wedi eu cofrestru mewn ysgolion a lleoliadau a gynhelir neu ddarpariaeth addysg arall yr awdurdod lleol neu'r disgyblion hynny nad yw eu rhieni wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Ar hyn o bryd, mae hyn yn achosi risg sylweddol y gallai disgyblion sy'n byw o fewn yr awdurdod, ond nad yw eu rhieni neu'u gofalwyr wedi cysylltu â sefydliad addysg, gael eu hanwybyddu. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae risg sylweddol na fydd yr awdurdod yn gallu sicrhau:

- eu bod yn cyflawni eu rôl statudol i ddiogelu'r holl blant a hyrwyddo'u lles
- eu bod yn cyflawni eu dyletswydd o dan adran 436A Deddf Addysg 1996 i sicrhau bod plant yn eu hardal yn derbyn addysg addas ac effeithlon.

Bydd creu'r gronfa ddata gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu gan y bwrdd iechyd lleol bob blwyddyn yn lleihau'r risg o beidio â nodi plant o'r fath.

Rydym yn cefnogi'r cynnig ac o'r farn y bydd y manteision a gynigir trwy greu cronfeydd data ar lefel awdurdod lleol yn gorbwyso'n sylweddol y goblygiadau baich gwaith a osodir ar Fyrddau Iechyd Lleol i rannu'r data gydag awdurdodau lleol, a bod awdurdodau lleol yn cynnal cronfa ddata o'r fath ac yn prosesu'r data a ddarparwyd. Mae cost ariannol prosesu'r data hwn a chynnal y gronfa ddata yn debygol o gael eu gwrthbwyso gan y manteision a ddaw o nodi'n gynnar blant a phobl ifanc sydd o bosibl yn fregus, a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Y prif faich gwaith sy'n cael ei greu gan y cynnig hwn fydd yr amser sydd ei angen ar staff y bwrdd iechyd i baratoi'r data a'r angen i staff yr awdurdod lleol baru'r data hwn â'r wybodaeth y maent yn ei dal am ddisgyblion y mae'n hysbys eu bod yn derbyn lefel addas o addysg (trwy fynychu ysgol a gynhelir neu ysgol annibynnol, darpariaeth arall gan yr awdurdod lleol, neu'u bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref). Mae Estyn yn cefnogi'r syniad y bydd data'r bwrdd iechyd lleol yn cynnwys enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni'r plentyn yn unig, gan fod hyn yn annhebygol o arwain at broblemau ynghylch preifatrwydd ond yn darparu gwybodaeth ddigonol i baru disgyblion.

Mae Estyn hefyd yn cefnogi'r cynnig y byddai data yn cael ei rannu unwaith yn unig ym mhob blwyddyn galendr. Credwn y byddai paru dyddiad trosglwyddo data o fyrddau iechyd lleol i awdurdodau lleol gyda dyddiad cyfrifiad data blynyddol y CYBLD yn arwain at ddata mwy cywir a llai o broblemau â nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny na ellir eu paru, ac sydd felly o bosibl yn colli addysg.

Gellid cryfhau'r bil drafft o bosibl trwy amlinellu'r protocol i awdurdodau lleol ei ddilyn pan na allant baru'r data a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol â'u data eu hunain.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried hefyd p'un a oes unrhyw fanteision i greu cronfa ddata genedlaethol o blant sy'n colli addysg i helpu nodi a chefnogi plant sydd efallai'n symud rhwng ardaloedd ac sy'n colli addysg.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ar hyn o bryd, nid yw awdurdodau lleol yn gwybod am yr holl blant yn eu hardal ond maent yn gyfrifol amdanynt o hyd. Ydych chi'n meddwl y bydd y gofynion yn y

rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn gwybod amdanynt ar hyn o bryd neu blant sy'n colli addysg?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

Os ydych chi wedi ymateb trwy ddweud 'nac ydw', esboniwch pam rydych chi'n credu na fydd y rheoliadau'n helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2** – Ydy'r cynnig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd yn adran 175 o dan Ddeddf Addysg 2002, sef cyflawni eu swyddogaethau addysg gyda bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

Os ydych chi wedi ymateb trwy ddweud 'nac ydy', esboniwch pam rydych chi'n credu na fydd y rheoliadau'n helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon.

| |
|---|
| Bydd yr ymateb hwn yn helpu lleihau'r risg na fydd plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn cael eu nodi. Nodi plant a phobl ifanc yw'r cam cyntaf tuag at allu diogelu a hyrwyddo lles y plant a'r bobl ifanc hyn. |

**Cwestiwn 3 –** O dan y rheoliadau, bydd byrddau iechyd lleol yn datgelu'r wybodaeth yn yr Atodlen (enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni'r plentyn) i'r awdurdod lleol er mwyn iddynt allu datblygu cronfa ddata plant sy'n colli addysg.

i) Ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr Atodlen yn rhesymol a chymesur i alluogi'r awdurdod lleol i nodi plant nad yw'n gwybod amdanynt ar hyn o bryd ac a allai fod yn colli addysg?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

Rhowch wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ateb.

| |
|---|
| Mae Estyn yn credu bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr Atodlen yn rhesymol a chymesur i alluogi'r awdurdod lleol i nodi plant nad yw'n gwybod amdanynt ar hyn o bryd ac a allai fod yn colli addysg. Mae'n debygol o fod yn ddigonol i awdurdodau lleol allu paru'r rhan fwyaf o ddisgyblion a nodwyd gan y byrddau iechyd yn hawdd. Gellid cryfhau'r bil drafft o bosibl trwy amlinellu'r protocol i awdurdodau lleol ei ddilyn pan na allant baru'r data a ddarparwyd gan fyrddau iechyd lleol â'u data eu hunain. |

ii) Ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i nodi plant nad yw'n gwybod amdanynt ar hyn o bryd ac a allai fod yn colli addysg?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os nad ydych chi'n credu bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ddigonol, amlinellwch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr Atodlen.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ddigonol i leihau'r risg y bydd plant yn colli addysg. |

**Cwestiwn 4** – A oes systemau a phrosesau amgen a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol i nodi plentyn nad oes ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol amdano?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os ydych chi wedi ateb 'oes', nodwch beth yw'r systemau a'r prosesau hynny.

| |
|---|
| Nid yw Estyn yn credu bod systemau amgen gwell. Bydd y trefniadau newydd hyn yn cryfhau'r prosesau hyn a byddant yn lleihau'n sylweddol y risg nad yw plant sy'n colli addysg yn cael eu nodi.<br><br>Gellid cryfhau'r cynigion ymhellach trwy ofyn bod cronfa ddata ddilynol y plant sy'n colli addysg yn cael ei rhannu yn genedlaethol er mwyn i bob awdurdod lleol allu droi ati. Gallai hyn helpu nodi a diogelu plant sydd efallai'n symud rhwng gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. |

**Cwestiwn 5** – Beth ydych chi'n meddwl fyddai manteision ac anfanteision datgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata? Llenwch yr adran sy'n berthnasol i chi.

i) Rhieni a gofalwyr

| |
|---|
| |

ii) Plant a phobl ifanc

| |
|---|
| |

iii) Byrddau iechyd lleol a chontractwyr meddygol cyffredinol

| |
|---|
| |

iv) Awdurdodau lleol

| |
|---|
| |

v) Arall

Mae Estyn yn credu mai mantais y system hon yw ei bod yn lleihau'r risg nad yw plant neu bobl ifanc sy'n colli addysg yn cael eu nodi. Trwy sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu nodi, gall yr awdurdod lleol wedyn eu diogelu a sicrhau eu bod yn derbyn lefel addas o addysg. Mae hyn yn debygol o gynnig manteision hirdymor i'r unigolion hyn.

Prif anfantais y cynnig yw'r baich gwaith gweinyddol i'r bwrdd iechyd wrth rannu'r data hwn, ac i'r awdurdod lleol wrth baru'r data hwn â'i ddata ei hun i nodi unigolion sydd ar goll o'u cofnodion, ac wedyn cynnal y gronfa ddata.

Mae Estyn yn credu bod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision o bell ffordd.

**Cwestiwn 6** – Mae'r rheoliadau drafft yn cynnig bod byrddau iechyd lleol yn datgelu gwybodaeth i awdurdodau lleol bob blwyddyn. Ydych chi'n cytuno â datganiad blynyddol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os na, pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylid darparu'r wybodaeth hon i awdurdodau lleol, a phryd fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Mae Estyn yn credu bod rhannu'r wybodaeth bob blwyddyn yn rhesymol, ac y byddai'n fanteisiol bod rhannu'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â dyddiad casglu blynyddol y CYBLD gan fod hyn yn debygol o helpu â chywirdeb a baich gwaith.

Efallai ei bod yn ddoeth aros cyn cadarnhau'r rhan hon o'r rheoliadau hyd nes bod y cynllun peilot wedi dod i ben a bod yr union faich gwaith, y costau a'r manteision wedi cael eu gwerthuso. Os na fydd y dasg hon yn feichus i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a'i bod yn arwain at nodi nifer sylweddol o blant sy'n colli addysg, efallai ei bod yn werth ystyried rhannu gwybodaeth yn fwy rheolaidd.

Er bod risg isel, efallai bydd angen i fyrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth am farwolaethau unrhyw blant neu bobl ifanc gyda'r ALl yn y cyfnod yn union ar ôl rhannu'r wybodaeth i ddechrau. Os bu farw plentyn (nad oedd yr ALl yn gwybod amdano) rhwng yr adeg y rhannodd y bwrdd iechyd lleol y data a'r adeg y mae tîm yr ALl yn cysylltu â'r teulu (ar ôl diweddaru'r gronfa ddata plant sy'n colli addysg), yna gallai cysylltiad o'r fath fod yn ansensitif.

**Cwestiwn 7** – Beth fyddai goblygiadau datganiad data amlach o ran goblygiadau technegol, gweinyddol a goblygiadau o ran adnoddau i'r canlynol:

i) byrddau iechyd lleol

Mwy o faich gweinyddol.

ii) awdurdodau lleol

Mae'n debyg y byddai hyn yn lleihau ymhellach risg peidio â nodi plant neu bobl ifanc sy'n colli addysg, ond byddai'n creu mwy o faich o ran paru'r data hwn.

Efallai ei bod yn ddoeth aros cyn cadarnhau'r rhan hon o'r rheoliadau hyd nes bod y cynllun peilot wedi dod i ben a bod yr union faich gwaith, y costau a'r manteision wedi cael eu gwerthuso. Os na fydd y dasg hon yn feichus i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a'i bod yn arwain at nodi nifer sylweddol o blant sy'n colli addysg, efallai ei bod yn werth ystyried rhannu gwybodaeth yn fwy rheolaidd.

Er bod risg isel, efallai bydd angen i fyrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth am farwolaethau unrhyw blant neu bobl ifanc gyda'r ALl yn y cyfnod yn union ar ôl rhannu'r wybodaeth i ddechrau. Os bu farw plentyn (nad oedd yr ALl yn gwybod amdano) rhwng yr adeg y rhannodd y bwrdd iechyd lleol y data a'r adeg y mae tîm yr ALl yn cysylltu â'r teulu (ar ôl diweddaru'r gronfa ddata plant sy'n colli addysg), yna gallai cysylltiad o'r fath fod yn ansensitif.

iii) arall

**Cwestiwn 8 –** Pwy o fewn yr awdurdod lleol fyddai angen mynediad at y gronfa ddata er mwyn cyflawni eu swyddogaethau?

- Gweithwyr y gwasanaeth amddiffyn plant
- Swyddogion addysg
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Tîm cymorth addysg ddewisol yn y cartref
- Uwch swyddogion

Gallai fod yn fuddiol sicrhau bod awdurdodau lleol eraill ledled Cymru yn gallu cael mynediad at y gronfa ddata derfynol.

**Byrddau iechyd lleol (9 i 12)**

**Cwestiwn 9 –** Ydych chi'n gallu nodi unrhyw risgiau preifatrwydd allweddol a risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10 –** Ydy protocolau presennol sy'n ymwneud â data am blant sydd wedi marw yn sicrhau nad yw prosesu'r data hwnnw mewn unrhyw ffordd yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11 –** A oes gennych chi unrhyw brofiad blaenorol o’r math hwn o ddatgelu a phrosesu data?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn 12 –** A oes goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a goblygiadau technegol i brosesu a datgelu’r data angenrheidiol i awdurdodau lleol?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol (13 i 14)**

**Cwestiwn 13 –** A oes unrhyw risgiau preifatrwydd neu risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 14 –** Ydy protocolau presennol sy’n ymwneud â data am blant sydd wedi marw yn sicrhau nad yw prosesu’r data hwnnw mewn unrhyw ffordd yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Awdurdodau lleol (15 i 19)**

**Cwestiwn 15 –** Ydych chi (yr awdurdod lleol) yn credu bod eich systemau a'ch prosesau presennol ar gyfer plant sy'n colli addysg yn eich galluogi i fod yn hyderus eich bod yn ymwybodol o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol o fewn ardal yr awdurdod lleol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 16 –** Ydy protocolau presennol sy'n ymwneud â data am blant sydd wedi marw yn sicrhau nad yw prosesu'r data hwnnw mewn unrhyw ffordd yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydyn** | ☐ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 17 –** Ydych chi'n gallu nodi unrhyw risgiau preifatrwydd allweddol a risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | **Ddim yn gwybod** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 18 –** Oes gennych chi unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn 19** – A oes goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a goblygiadau technegol i brosesu'r data a dderbynnir gan fyrddau iechyd lleol?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 20** – Ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r rheoliadau drafft newydd wedi'u bwriadu i amddiffyn yr holl ddisgyblion ac, felly, ni fyddant yn cael effaith negyddol ar unrhyw ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. |

**Cwestiwn 21** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau drafft ar y Gymraeg? Mae gennym ni ddiddordeb yn benodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

**Sylwadau ategol**

Mae’r rheoliadau drafft yn annhebygol o effeithio ar y Gymraeg. Nid yw Estyn yn credu bod unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg o fewn y rheoliadau drafft hyn.

**Cwestiwn 22** – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y rheoliadau drafft er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Nid yw Estyn yn credu y gellid newid y rheoliadau drafft i gael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio’r Gymraeg.

**Cwestiwn 23** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i’w nodi.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐